Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru - Polisi

Teitl: **POLISI ADDASIADAU**

Datganiad Polisi

Mae gan Gymdeithas Tai Canolbarth Cymru ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth addasiadau teg i'w phreswylwyr ac ymgeiswyr.

1. Bydd gan y polisi'r canlyniadau dilynol:

Cyntaf	Bod addasiadau'n gwella yn hytrach na dibrisio stoc
Ail	Bod adeiladau newydd yn ymgorffori hyblygrwydd ar gyfer addasu yn y dyfodol.
Trydydd	Bod anheddau a addaswyd yn cael eu defnyddio gan bobl sydd eu hangen.
Pedwerydd	Bod grant addasu'n cael ei ddefnyddio yn y dull mwyaf effeithiol.
Pumed	Lle nad yw addasiadau'n effeithiol o ran cost, gwneir defnydd llawn o bolisi'r Gymdeithas ar Osodiadau a Symudedd.

2. Caiff y polisi ei adolygu mewn ymateb i newidiadau sylweddol i gyllid ar gyfer addasiadau ac o leiaf bob dwy flynedd.

Diffiniadau:

Gwaith addasu bach yw eitemau bach ychwanegol neu newid eitemau bach presennol mewn ymateb i anabledd person, ac ni fyddai'n dod o fewn y term cynnal a chadw, er enghraifft, canllawiau ychwanegol neu blinth i godi toiled. Caiff y terfyn arian ar gyfer pob swydd ei osod yn flynyddol fel rhan o'r broses o osod cyllideb.

Gwaith addasu mawr yw newidiadau neu ychwanegiadau i'r annedd neu ei chyfleusterau i ddarparu ar gyfer anabledd person, er enghraifft gosod cawod gyda mynediad gwastad yn lle bath neu osod lifft grisiau.

Meysydd Perfformiad Allweddol:

A. Polisi ar addasiadau ar gyfer preswylwyr ac ymgeiswyr:

- Gall pob preswylydd ac ymgeisydd wneud cais am waith addasu.
- Bydd y Gymdeithas yn gwneud gwaith addasu yn unol gyda pholisi ond nid oes unrhyw hawl i waith addasu.

- Bydd y Gymdeithas yn gwneud ei gorau i gyfateb ymgeiswyr neu breswylwyr gydag anheddau sydd wedi eu haddasu.
- Dim ond os oes cyllid digonol ar gael y gwneir gwaith addasu.

B. Gwaith addasu ar gyfer preswylwyr:

- Gall pob preswylydd wneud cais am waith addasu cyn belled â bod cefnogaeth broffesiynol briodol ar gael ar gyfer addasiadau mawr (argymhelliad therapydd galwedigaethol neu gyffelyb).
- Mae polisi ar wahân ar gyfer gwaith addasu bach ond ni fyddant yn uwch na therfyn gwerth y flwyddyn bresennol a chânt eu gwneud ar ddisgresiwn y Gymdeithas.
- Caiff ceisiadau am addasiadau eu hystyried ar ôl i'r Gymdeithas:
  - Benderfynu peidio symud y preswylydd i annedd arall cymdeithas tai neu awdurdod lleol a fyddai'n gweddu'n well i'w hanghenion.
  - Sefydlu na fedrid gwneud y gwaith dan gynnal a chadw cynlluniedig o fewn deuddeg mis o dderbyn y cais gyda chefnogaeth broffesiynol.
- Caiff addasiadau eu cyflwyno ar gyfer Grant Addasiadau Ffisegol y Cynulliad yn y lle cyntaf.
- Os nad oes Grant Addasiadau Ffisegol ar gael, bydd y Gymdeithas yn cefnogi preswylwyr i wneud cais am gyllid Grant Cyfleusterau i'r Anabl gan yr awdurdod lleol.

C. Gwaith addasu ar gyfer perchen-breswylwyr:

- Nid yw anheddau y mae'r preswylydd yn rhan-berchen neu'n llwyr berchen arnynt yn gymwys am gyllid Cronfa Addasiadau Ffisegol ac ni fydd y Gymdeithas yn ariannu'r addasiadau hyn.
- Bydd y Gymdeithas yn cyfeirio perchen-breswylwyr at system Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yr awdurdod lleol.
- Bydd y Gymdeithas yn cyfeirio perchnogion oedrannus neu anabl i asiantaeth leol Gofal a Thrwsio.

Ch. Gwaith addasu ar gyfer ymgeiswyr – anheddau presennol:

- Gall pob preswylydd wneud cais am waith addasu a rhoddir ystyriaeth i'w hanghenion yn y broses ddyrannu.
- Lle daw annedd wedi'i haddasu yn wag, mae'r polisi dyraniadau yn caniatáu ar gyfer gwneud cynnig i'r ymgeisydd sydd angen y gwaith addasu hyd yn oed os nad hwy sydd â'r pwyntiau uchaf.
- Bydd ymgeiswyr sy'n cael cynnig annedd sydd angen ei haddasu yn symud i'r annedd cyn y gwneir y gwaith. Bydd y llythyr cynnig yn ei gwneud yn glir fod addasiadau yn amodol ar fod cyllid ar gael ac felly ar ôl symud i mewn, mae'n bosibl na wneir y gwaith addasu.
- Os na all ymgeiswyr symud i mewn heb y gwaith addasu, ac na fydd unrhyw gorff arall yn talu am rent yr uned wag, gall y cynnig gael ei ddileu a dodi'r ymgeisydd yn ôl ar y rhestr aros nes daw annedd arall yn wag.

D. Gwaith addasu ar gyfer ymgeiswyr – anheddau newydd

- Bydd y Gymdeithas yn newid contractau adeiladu i gynnwys ceisiadau am waith addasu gan ymgeiswyr lle mae hyn yn fforddiadwy ac yn ffisegol bosibl.

Diben:	➢ Sicrhau (cyn belled ag sy'n ymarferol) nad yw'r Gymdeithas yn rhoi unrhyw breswylydd neu ymgeisydd dan anfantais. ➢ Sicrhau bod y Gymdeithas yn cyflawni ei goblygiadau statudol a rheoleiddiol.	
Cyfeirnod:	Polisi Addasiadau	
Dyddiad Cyhoeddi:	Mawrth 2011	
Dyddiad Adolygu:	Mawrth 2012	
Adrannau/Unedau yr Effeithir Arnynt:	Gwasanaethau Tai Polisi dyrannu a gosod Polisi symudedd Gweithdrefn addasiadau bach Rheoli Asedau Gweithdrefn cynnal a chadw cynlluniedig Gwasanaethau Cwsmeriaid Cyngor cyffredinol i breswylwyr ac ymgeiswyr Datblygu Gweithdrefn gwerthuso opsiynau stoc	
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Rheoli	
Swyddog Arweiniol:	Cyfarwyddydd Gweithrediadau	
Cydymffurfiaeth Statudol	• Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, 1995	
Ffactorau Risg Strategol	• Y bydd y Gymdeithas yn methu cynorthwyo'r rhai sydd yn yr angen mwyaf drwy fethu sicrhau fod ei gwasanaethau yn deg. • Y bydd y Gymdeithas yn cael colled ariannol neu anfantais fasnachol arall drwy fethu ymateb i anghenion preswylwyr ac ymgeiswyr. • Y caiff enw da'r Gymdeithas ei leihau os tybir ei bod yn "annheg" neu "anghyfartal"	
Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb	*Sut mae/fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion eu cyflawni'n deg yn neilltuol yng nghyswllt hil, rhyw, anabledd ac ati?*	Mae'n gosod y fframwaith polisi ar gyfer y Gymdeithas i sicrhau ei bod yn trin preswylwyr ac ymgeiswyr yn deg.
	A deimlir y medrai'r polisi fod ag effaith niweidiol ar wahanol grwpiau. Os felly,	• Ni ddisgwylir y bydd effaith niweidiol ar unrhyw grwpiau neu unigolion.

	beth yw'r cyfiawnhad am hyn ac a oes caniatâd cyfreithiol drosto?	• Bydd ymgeiswyr a thenantiaid sydd ag anabledd yn cael gwell mynediad i dai fforddiadwy.
	A ymgynghorwyd â grwpiau cynrychioladol yn yr ardal am eu barn ac os felly, beth oedd y canlyniad?	Na
Cyswllt Tenantiaid	*Sut mae/sut fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion tenantiaid eu diwallu?*	Drwy ymateb yn gadarnhaol i geisiadau am waith addasu.
	Sut y teimlir y bydd y Polisi yn effeithio ar hawliau a goblygiadau tenantiaid?	Cynlluniwyd y polisi i barhau i ddarparu gwasanaeth teg hyd yn oed os cwtogir ar gyllid.
	A ymgynghorwyd â thenantiaid ac a roddwyd ystyriaeth i ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wrth ystyried cyflwyno'r Polisi yma?	Do, aeth y polisi i'r Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr yn Ionawr 2011. Roedd tenantiaid yn hapus gyda'r polisi.